



Cylchlythyr Wythnosol Ysgol Pencae *Weekly Newsletter*

14.02.25

Annwyl Riant / Gwarcheidwaid,

Dear Parent / Guardian,

Mae'r holl ddisgyblion yr wythnos hon wedi bod yn dysgu sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngwrwd wrth i ni ddathlu Diwrnod Diogelwch y We.

All pupils have been learning about and discussing how to stay safe on the internet as we celebrated Safer Internet Day.

Yn Eisiau / Wanted

Rydym yn chwilio am oleuadau wal fel hyn o Ikea. Nid ydyn nhw ar gael bellach ond os oes gennych chi rai nad ydych yn eu defnyddio, byddai gan yr ysgol ddiddordeb mawr yn eu derbyn. Diolch!

We are looking for wall lights like this from Ikea. They are unavailable in the store. If you have any spare, the school would be very interested in taking them off your hands. Diolch!



Cais Caredig / Kind Request

Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau eich bod yn dewis cinio ar gyfer eich plentyn trwy'r rhaglen ParentPay. Oni bai eich bod yn archebu, ni allwn sicrhau y bydd eich plentyn yn bwyta yr hyn maen nhw'n dewis.

We kindly ask you to make sure that you order your child's lunch on ParentPay. Unless you order, we can't guarantee that your child will get their choice of meal.

Gwasanaeth Dosbarth Blwyddyn 5 Class Assembly



Cawsom wledd gan flwyddyn 5 prynhawn dydd Mercher wrth iddyn nhw gyflwyno gwasanaeth dosbarth a oedd yn cyflwyno hanes Owain Glyndwr. Roedd y perfformiad yn un egniol, dysgon ni lawer o ffeithiau am Owain Glyndwr a'i ffrindiau yn ogystal â'i elynion ac roedd yna eiliadau o gomedï! Cychwyn gwych i'n cyfres o wasanaethau dosbarth. Llongyfarchiadau i'r disgyblion, Mrs Pritchard a Miss Mills.

We had a fantastic performance from Year 5 on Wednesday afternoon as they presented their class assembly. They introduced the history of Owain Glyndwr. It was an energetic performance full of facts; we met Glyndwr's friends and enemies, and there were comedic moments. What a great start to our class assemblies! A huge congratulations go to the pupils, Mrs. Pritchard, and Miss Mills.

Eisteddfod Offerynnol / Instrumental Eisteddfod

Llongyfarchiadau i Arthur Thomas, Mali Crimmins ac Anais Moore am eu hymdrech yn yr Eisteddfod Offerynnol eleni. Mae dyfodol disglair iawn o flaen yr offerynwyr yma. Llongyfarchiadau arbennig i Arthur ar ennill y drydedd wobwr yn yr unawd pres.

Congratulations to Arthur Thomas, Anais Moore, and Mali Crimmins for their efforts in the instrumental Eisteddfod this week. All three show great promise as musicians. A special congratulations go to Arthur, who won third prize in the Brass Solo.

Diolch Mr Perkins

Diolch o galon i Mr Perkins am ddod i gynnal gwasanaeth i ddisgyblion blwyddyn 2 - 6. Trafododd ei yrfa yn y fyddin, yr heriau dilynol, ei yrfa fel ffisiotherapydd a'i rolau amrywiol o fewn gemau Invictus. Roedd yn ysbrydoliaeth llwyr i'n disgyblion.

We would like to say a big Diolch to Mr. Perkins for his assembly to pupils from Year 2 to 6 on Thursday. He came to discuss his time in the forces, the challenges that followed, his career as a physiotherapist, and his various roles within the Invictus Games. He was an absolute inspiration to our children. Diolch!

Sinema Pencae Cinema

Diolch i bawb am gefnogi ein Sinema Pencae. Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn gwyllo *Migration*, bwyta popcorn a'r ci poeth hir-ddisgwylidig hanner amser! Diolch i'r holl wirfoddolwyr a'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am sicrhau'r cyfle yma i'r disgyblion.

Diolch to all who supported Pencae Cinema this week. The children had a great time watching Migration, eating popcorn, and enjoying the long-awaited hot dog at halftime! Diolch to all the volunteers and the PTA for providing our pupils with this opportunity.

Blwyddyn 5 a 6: Taclo'r Tywydd

Aeth Blwyddyn 5 a 6 ddydd Llun i stiwdio deledu Enfys i recordio rhaglen newydd sbon i Stwnsh, Taclo'r Tywydd! Fe wnawn roi gwybod pan fydd y rhaglen sy'n serennu ein disgyblion ar y teledu!

Our Year 5 and 6 pupils went to Enfys Television Studios on Monday to record a brand new programme for Stwnsh, Taclo'r Tywydd. We will let you know when the programme is broadcast.

Cadwch Gymru'n Daclus / Keep Wales Tidy

Mae'r ysgol wedi ennill grant Cadwch Gymru'n Daclus er mwyn datblygu ein gardd. Mwynhaodd y Pwyllgor Eco weithdy gyda'r elusen er mwyn adeiladu gwely blodau newydd sbon a phlannu coed amrywiol yn yr ardd. Diolch i Mrs Ball am ei chymorth yn ymgeisio am y grant.

The school has won a Keep Wales Tidy grant to develop our garden. The Eco Committee enjoyed a workshop with the charity, building a flower bed and planting various trees in the garden. Diolch to Mrs. Ball, who helped us with the grant application.

Clybiau / Clubs

	Dydd Llun <i>Monday</i>	Dydd Mawrth / Tuesday	Dydd Mercher <i>Wednesday</i>	Dydd Iau <i>Thursday</i>
3.30 - 4.30	Parti Unsain Aelodau yn unig / members only	<u>B13-6</u> Clwb Chwaraeon Urdd Urdd Sports Club archebu lle / book a place	<i>Dancefit</i>	<i>Cyflwyniad Dramatig 3.30 - 5.00</i> Aelodau yn unig / members only <i>Code Club</i> Aelodau yn unig / members only <u>B14- 6</u> Clwb aml-chwaraeon Multi-sports club



Mwynhewch y penwythnos / *Enjoy the weekend,*

Siwan Dafydd

Mis Chwefror Sialens Siarter Iaith y Teulu <i>Language Charter Family Target</i>	Mis Chwefror Proc i'r Cof Diogelwch ar y We <i>Internet Safety Tip</i>	Mis Chwefror Hawliau Plant <i>Children's Rights</i>
Pa liwiau welwch chi o amgylch y lle. Beth am eu henwi yn Gymraeg. <i>What colours do you see? How about naming them in Welsh.</i>	Adeiladwch restr o gemau addas ar gyfer eich plentyn ar Roblox. Nid yw pob gem yn addas. <i>Build a list of age-appropriate games on Roblox. Not all games will be appropriate for your child.</i>	Eich hawl i ddweud beth ddylai digwydd ac i rywun wrando arnoch. <i>Your right to say what you think should happen and be listened to.</i>

Cysylltiadau Defnyddiol / Helpful Links:

Swyddogion Diogelu yr Ysgol / Safeguarding Designated Teachers: Siwan Dafydd ac Aled Thomas
Llywodraethwr Diogelu / Safeguarding Governor: Emma Simpkins

[Gwybodaeth Diogelu / Safeguarding Information](#)

[Ffurflen Meddyginiaeth / Medicine Form](#)

[Ffurflen Gwyliau / Holiday Form](#)



[Gwaith cartref / Home Work](#)

bit.ly/gwaithcartrefPC

DYDDIADUR YR YSGOL / SCHOOL DIARY

Dyma ddyddiadau a bydd mwy o fanylion yn nes at yr amser
Here are key dates and more information will be shared nearer the time

Dyddiad / Date	Digwyddiad / Event
17.02.25	Cofrestru ar gyfer cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Eisteddfod yr Urdd Registration Closing Date
19.02.25 2.50pm	Gwasanaeth Dosbarth Blwyddyn 4 Year 4 Class Assembly



ysgolpencae@caerdydd.gov.uk



[ysgolpencae](#)



www.ysgolpencae.cymru



02920 563 851

21.02.25	CRha / PTA: Sel ddillad ail law Diwrnod y Llyfr Second Clothes Sale: World Book Day costumes
24.02.25 - 28.02.25	Hanner Tymor / Half Term
03.03.25	CRha / PTA: Stondin Pice ar y Maen Welshcake stall
06.03.25	Diwrnod y llyfr - croeso i'r disgyblion wisgo gwisgoedd Diwrnod y Llyfr neu ddillad maen nhw'n cysylltu gyda darllen, e.e. pyjamas! World Book Day - the children are welcome to wear their World Book Outfits or clothes they associate with reading, e.g. Pyjamas!
08.03.25	Eisteddfod Cylch / Eisteddfod 1st round
10.03.25	Eisteddfod Ysgol - gwisgwch eich gwisg Cymreig School Eisteddfod - wearyou Welsh outfits
11.03.25 + 12.03.25	Nosweithiau Rhieni (wyneb i wyneb) Parents Evening (face to face)
13.03.25	Eisteddfod Ddawns yr Urdd Dance Eisteddfod
14.03.25	Bl4: Trip Blannu Coed gyda Coed Caerdydd Trip to plant some trees with Coed Caerdydd
17.03.25 - 21.03.24	BI5: Gwersi Seiclo Cycling Lessons
19.03.25 2.50pm	Gwasanaeth Dosbarth Blwyddyn 3 Year 3 Class Assembly
01.04.25	Eisteddfod Theatr - disgyblion Cyflwyniad Dramatig Theatre Eisteddfod - Cyflwyniad Dramatig pupils
02.04.25 2.50pm	Gwasanaeth Dosbarth Blwyddyn 1 Year 1 Class Assembly
07.04.25	CRha / PTA: Cystadleuaeth Bonedi Pasg / Easter Bonnet competition.
09.04.25 - 11.04.25	Bl4: Maes y Fron - taliadau ar agor ar ParentPay Call of the Wild - payments open on ParentPay
11.04.24	Diwrnod olaf Tymor y Gwanwyn / Last Day of Spring Term 14.4.25 - 25.4.25: Gwyliau Pasg / Easter Holiday



02.05.25	Bl6: Diwrnod Pontio - chwaraeon Transition Day - sports
14.05.25 2.50pm	Gwasanaeth Dosbarth Blwyddyn 2 Year 2 Class Assembly
21.05.25 2.50pm	Gwasanaeth Dosbarth Dosbarth Derbyn Reception Class Assembly
26.05.25 - 30.05.25	Hanner Tymor / Half Term
02.06.24 - 03.06.24	Bl3: Pentre Ifan a Chastell Henllys Pentre Ifan and Castell Henllys
09.06.25 - 20.06.25	Bl3: Gwersi Nofio <i>Swimming Lessons</i>
30.06.25	Bl6: Diwrnod Pontio (heb staff Pencae) Transition Day (without Pencae staff)
03.07.25 1pm - 3.30pm	Mabolgampau - NIAC, Cyncoed. Dewch i wylio a bydd angen casglu y disgyblion o Gyncoed. <i>Sports Day - NIAC Cyncoed. Come and watch! You will have to pick the children up from Cyncoed.</i>
18.07.25	Diwrnod ola'r tymor / Last Day of term 2.30pm: Gwasanaeth Gadael Blwyddyn 6 Leavers Assembly
21.07.25	Diwrnod HMS / Inset Day



ysgolpencae@caerdydd.gov.uk



ysgolpencae



www.ysgolpencae.cymru



02920 563 851